Department for Culture Media & Sport

# Adolygiad o Siarter y BBC 2016

## Taflen Wybodaeth - Gweithdrefnau'r Siarter

*Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisïau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.*

**Cefndir**

Llywodraethir y BBC drwy Siarter Frenhinol, yn hytrach na Deddf Seneddol, sy'n pwysleisio annibyniaeth y BBC o'r llywodraeth mewn grym. Mae Cytundeb Fframwaith ategol yn cydnabod annibyniaeth olygyddol y BBC. Llunnir y Siarter a'r Cytundeb gan y llywodraeth a, gyda'i gilydd, maent yn nodi sut y dylai'r gorfforaeth gael ei rhedeg, ei strwythuro a'i hariannu, a beth yw ei diben.

**Polisi'r llywodraeth**

Mae'r papur gwyn yn nodi'r bwriad i sefydlu Siarter 11 mlynedd hyd at 2027, er mwyn gwahanu'r Adolygiad o'r Siarter oddi wrth y cylch gwleidyddol a gwella annibyniaeth y BBC. Y Siarter hon fydd y gyntaf i gynnwys trefniant ar gyfer y broses Adolygiad o'r Siarter nesaf ac i ffurfioli rôl ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn y broses honno.

Bydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad canol tymor o'r Siarter, gan ganolbwyntio ar drefniadau llywodraethu a rheoleiddio. Bydd hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod y newidiadau sylweddol i'r systemau llywodraethu a rheoleiddio yn y Siarter hon yn gweithio'n effeithiol ac y gellir gweithredu cyn diwedd y Siarter os bydd angen gwella, yn hytrach nag aros am yr Adolygiad o'r Siarter nesaf. Nid yw'r adolygiad canol tymor yn Adolygiad o'r Siarter ac felly ni fydd yn edrych ar genhadaeth a diben y BBC na'r dull o'i ariannu. [Hefyd, bydd yn digwydd ar wahân i setliad nesaf ffi'r drwydded er mwyn sicrhau yr erys y ddau adolygiad ar wahân]

**Y darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb**

*Siarter*

Mae **Erthygl 2** yn nodi cyfnod y Siarter, gan osod hyd y Siarter hon yn 11 mlynedd - gwnaed hyn yn glir yn y Papur Gwyn, o gofio bod y llywodraeth yn blaenoriaethu diogelu annibyniaeth y BBC, y bydd cyfnod y Siarter nesaf am 11 mlynedd, hyd at 31 Rhagfyr 2027

Mae **Erthygl 57** yn nodi'r manylion a'r trefniadau ar gyfer gwiriad tymor canol, gan ganolbwyntio ar drefniadau llywodraethu a rheoleiddio, er mwyn sicrhau bod y system reoleiddio newydd wedi'i sefydlu

---

*Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review](http://www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review). Os hoffech drafod cynnwys y daflen wybodaeth hon, cysylltwch â [enquiries@culture.gov.uk](mailto:enquiries@culture.gov.uk)*
*Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Newyddion a Chysylltiadau DCMS ar 020 7211 2210*

fel y disgwylir. O gofio'r problemau gyda model yr Ymddiriedolaeth, mae'n bwysig y gellir archwilio'r system lywodraethu yn ystod cyfnod y Siarter yn hytrach na gadael i'r problemau hyn waethygu dros 11 mlynedd.

Mae **Erthygl 59** yn nodi proses ar gyfer cynnal Adolygiad o'r Siarter am y tro cyntaf yn Siarter y BBC. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r Siarter gael ei chyflwyno gerbron dau Dŷ'r Senedd a'r deddfwrfeydd datganoledig a'u trafod ynddynt.